# Ar drothwy stori fawr Baner Gee

## P. H. JONES a hanes bywyd Yr Amserau

ER IDDYNT ddianc yn groeniach bron o 'grafangau' cyfreithiol offeiriad Pabyddol Pen-y-bont ar Ogwr, cyn diwedd 1856 'roedd pethau wedi mynd yn ddrwg iawn rhwng John Lloyd, perchennog yr *Amserau*, a Ieuan Gwyllt, ei olygydd, cymaint felly nes i Ieuan hysbysu ei hen gyfaill Thomas Levi ar 12 Rhagfyr 1856 ei fod 'wedi ymadael â'r *Amserau* er ys dros wythnos bellach'.

Mae'n amlwg y bwriadai dorri ei gysylltiad â'r newyddiadur yn llwyr ac yn derfynol oherwydd dywed iddo 'losgi a dinystrio rhyw hanner myrdd o hen bapurach fy ngorchwyliaeth *Amserauyddol*'.

Eto, teimlai'n bur chwithig 'heb yr un rhaid o'r tu cefn i mi, heb yr un d---l a'i fflangell ysgorpionog yn gyru ar fy ol': dioddefai'n ddi-os o bwl drwg o'r iselder ysbryd a'i poenai'n fynych.

Beth a barodd iddo roi'r gorau i'r olygyddiaeth? Yn anffodus, nid yw casgliad y Llyfrgell Genedlaethol o'i lythyrau at Thomas Levi yn gyflawn: wedi i J. Eiddon Jones eu defnyddio ar gyfer ei gofiant i Ieuan Gwyllt (1881) collwyd rhai llythyrau'n gyfan gwbl ac aeth darnau o lythyrau eraill ar ddisberod.

Felly cawn yng nghasgliad y Llyfrgell ddechrau llythyr dyddiedig 18 Tachwedd 1856 sy'n dwyn yr annodiad (yn llaw Eiddon Jones, mae'n debyg) 'Yr achos o dori y Cysylltiad â'r *Amserau*.

Yn anffodus mae'r rhan sy'n esbonio paham wedi mynd ar goll! Ond ar waelod tudalen 41 o'r cofiant cawn ddyfyniad, credaf, o'r llythyr hwn: 'Yr wyf wedi rhoddi fy swydd fel Gol. yr *Amserau* i fyny; bydd pob cysylltiad rhyngof â'r *Amserau* yn tori gyda diwedd y mis hwn . . . Y mae yn bur edifar genyf na fuaswn wedi ei adael er ys amser maith cyn hyn'.

Er na fynnai Eiddon Jones fanylu yn 1881 ar yr hyn a alwai yn 'helynt anghysurus', awgrymodd mai'r achos oedd 'fod llythyrau at y Golygydd yn cael eu cadw oddi wrtho (gan Lloyd) heb yngan gair yn eu cylch, a llythyrau wedi iddo ef eu cymeradwyo yn cael eu gwrthod i mewn heb son gair wrtho ef'. Mewn pennod ddiweddarach, wrth ganmol sêl Ieuan Gwyllt 'dros ryddid barn a llafar', dywed mai 'hyn a arweiniodd i'r anghydweledigd rhyngddo ef a Mr. Lloyd'.

Mewn gair, cawn enghraifft wych yma o wrthdaro rhwng perchennog a golygydd newyddiadur ynglŷn â'i gynnwys ac, fel sy'n digwydd gan amlaf, y perchennog a gariodd y dydd. Beth, ynteu, oedd cnewyllyn yr anghydfod?

* * *

Y BRIF ddadl a gynhyrfai ddarllenwyr yr *Amserau* yn ystod ail hanner 1856 oedd y cwestiwn llosg a oedd y cyfieithiad Cymraeg o *Addysg Chambers i'r Bobl* yn tueddu i hybu anffyddiaeth yng Nghymru. Ceir peth tystiolaeth nad oedd ambell i ddadleuwr yn credu ei fod yn cael ei drin yn deg gan yr *Amserau*.

Un enghraifft nodedig o hyn oedd llythyr a gyhoeddwyd (fel hysbyseb) yn yr *Herald Cymraeg* ar dechrau Hydref 1856 oddi wrth *Methodist*, gyda'r esboniad nad oedd golygydd yr *Amserau*, y danfonwyd y llythyr ato'n wreiddiol, hyd yn oed wedi cydnabod ei dderbyn. 'Roedd Ieuan Gwyllt felly'n cael ei ddilorni'n gyhoeddus oherwydd gweithrediadau llechwraidd Lloyd!

Fodd bynnag, wedi pythefnos o bwdu fe'i perswadiwyd 'ar gais taer Mr. a Mrs. Lloyd' i ailymgymryd â'r olygyddiaeth o ganol Rhagfyr 1856 ymlaen, ar yr amod na fyddai mwyach yn darparu mwy na dwy golofn yr wythnos o erthyglau arweiniol.

Gan fod Lloyd mor hoff o ymyrryd â gohebiaeth y newyddiadur, efe fyddai'n gyfrifol am drin llythyrau darllenwyr mwyach. Yn ystod misoedd cynnar 1857 bu Eleazar Roberts yn ysgrifennu llawer iawn o'r newyddiadur: ar 8 Ebrill 1857, er enghraifft, nododd yn ei ddyddiadur 'Had about 10 columns in the *Amserau* today', ond bu cweryl rhyngddo a Lloyd ychydig wedi hyn ac fe dorrodd yntau ei gysylltiad â'r newyddiadur am dros ddeunaw mis.

Tra oedd Lloyd a'i staff wrthi'n cweryla a chymodi fel hyn, 'roedd y newyddiadur a oedd i roi ergyd derfynol i'r *Amserau*'n cael ei lansio.

* * *

YN ÔL Thomas Gee bu sawl un yn pwyso arno i gychwyn newyddiadur yn ystod y 1850au ond ni fynnai bryd hynny gystadlu â'r rhai oedd eisoes yn y maes. Ond erbyn Hydref 1856 'roedd wedi newid ei feddwl.

Efallai mai'r ystyriaeth bwysicaf oedd bod Hiraethog, fel y gwelsom yn y rhan olaf ond un o'n hanes, wedi digio cymaint â'r *Amserau* oherwydd yr ymosodiadau arno ynddo yn ystod 1856 nes iddo ystyried ei fod yn rhydd i gyfrannu i newyddiadur a fyddai'n cystadlu yn ei erbyn. Felly, pan ysgrifennodd Gee ato ar 1 Tachwedd 1856 i gynnig iddo'r swydd o olygydd gwleidyddol ei newyddiadur arfaethedig, cytunodd gyda throad y post.

Fel cyhoeddwr llwyddiannus 'roedd gan Gee'r adnoddau i ddenu tim cryf o gyfranwyr. Gallai gynnig i Hiraethog (am ei waith rhan-amser) '35 clear of all expenses the first year, 40 the second, 45 the third, and 50 for the fourth, and following years', a'r un telerau i John Hughes, Pont Menai, am fod yn gyfrifol am yr adran grefyddol a moesol.

Cyflogai hefyd Thomas Jones, 'Glan Alun', i ddethol a chyfieithu barn y wasg Seisnig ar 'important questions of the week . . . so as to afford the Welsh a notion of what the important English newspapers are doing', a John Roberts, Llanberis, fel is-olygydd llawn amser 'to fill up, and to read proofs and keep accounts, &c.'

Ac yn bwysicach na dim, wrth gwrs, i lwyddiant y *Faner* oedd cyflogi John Griffith, 'Y Gohebydd', newyddiadurwr mwyaf poblogaidd y cyfnod.

* * *

ER BOD y *Faner*, a gostiai 3c, yn ddrutach na'r *Amserau* (ac felly'n dibynnu llai ar y tâl a dderbyniai am hysbysebion), 'roedd wedi ei anelu at yr un garfan o ddarllenwyr, sef y sawl a ddymunai dderbyn newyddiadur a oedd, yng ngeiriau Gee, 'of a distinctly religious character . . .()and as liberal in politics as you please'.

Rhoddwyd pwyslais mawr ar barchusrwydd y *Faner* fel 'cyfrwng gwybodaeth gyffredinol mor bur a detholedig ag y gellid': ni chynhwysai, er enghraifft, yr hysbysebion meddygol amheus iawn a oedd erbyn hyn yn britho tudalennau'r *Amserau*.

Er nad oedd gwerthiant helaeth iawn i'r *Faner* yn ystod ei fisoedd cyntaf — ymhen blwyddyn o'i gychwyn dim ond tua 1500 yr wythnos a argraffwyd, digon i ddigolledu Gee, ond fawr ddim mwy na hynny — 'roedd Lloyd ac Ieuan Gwyllt yn ymwybodol iawn o'r sialens newydd a pheryglus a wynebai'r *Amserau*.

'Roedd yn rhaid iddynt wella ei gynnwys er mwyn ehangu ei apêl ac, os yn bosibl, rhoi mwy o drefn ar ei reolaeth masnachol. Er mwyn cryfhau'r ochr olygyddol, cyhoeddwyd hysbyseb ynddo ar 1 Mawrth 1857 (wythnos ar ôl ymddangosiad rhifyn cyntaf y *Faner*) yn cynnig swydd i 'ddyn ieuanc o gymeriad, barn, a chwaeth ac yn gymreigiwr da' i 'ddethol newyddion &c o'r newyddiaduron Saesoneg a'u cyfieithu i'r Gymraeg, i edrych dros a dethol o ohebiaethau Cymraeg a'u cyfleu i'r wasg, yn abl i wneuthur adroddiadau o gyfarfodydd, &c'.

Fe apwyntiwyd y gŵr talentog ond hynod o anffodus hwnnw Mathew Lewis i'r swydd o is-olygydd. Mae hanes ei yrfa yn debyg iawn i blot un o nofelau dirwestol y cyfnod. O'i ordeinio yn 1843 tan ganol y 1850au fe'i hystyrid yn un o bregethwyr mwyaf addawol yr Annibynwyr. Yna, wedi marwolaeth ei wraig yn 1854, fe ddechreuodd yfed i ormodedd nes cael ei orfodi i adael ei eglwys yn Nhreffynnon tua diwedd haf 1855.

Treuliodd ryw ddeunaw mis yn crwydro yma ac acw cyn ymsefydlu yn Lerpwl yn gynnar yn 1857, lle bu'n cyd-letya ag Isaac Foulkes yn nhŷ'r rhyfeddol 'Broffeswr' Josephus Eryri, hyrwyddwr y 'Medical, Magnetic and Phrenological Institution'.

'Roedd Lewis eisoes yn awdur profiadol: cyhoeddasai bregethau ac ysgrifau yn y *Dysgedydd* a'r *Traethodydd* yn ogystal â chyfrannu hanesion lleol i'r *Amserau* o 1850 ymlaen, os nad cynt.

Cryfhawyd yr ochr fasnachol trwy ehangu perchenogaeth y newyddiadur i gynnwys tri o feibion Lloyd a gŵr o'r enw Edward Ellis. Mae llythyrau Ieuan Gwyllt yn awgrymu mai Ellis a fu'n gyfrifol am 'ddwyn materion masnachol y papur i rywbeth tebyg i drefn' yn ystod ail hanner 1857.

Ar yr un pryd dechreuwyd menter newydd gan y Lloydiaid ac Ellis, sef 'Swyddfa Ymfudol yr *Amserau*', yn y gobaith y gellid manteisio ar yr ymfudo cynyddol o Gymru trwy borthladd Lerpwl.

'Roedd gan Lloyd eisoes gysylltiadau masnachol â rhai o gwmnïau llongau Lerpwl: gwyddom, er enghraifft, ei fod yn gwneud cryn dipyn o fân-argraffu ar gyfer y 'White Star Line'.

* * *

AR 1 Gorffennaf 1857 fe newidiwyd fformat yr *Amserau* o 4 tudalen 7 colofn, i 8 tudalen 6 cholofn. Un amcan wrth helaethu'r papur fel hyn oedd darparu mwy o le i'r hysbysebion — o hyn ymlaen cynhwysai pob rhifyn tua dwy dudalen a hanner ohonynt.

Er bod Ieuan Gwyllt yn parhau i deimlo'n bur ansefydlog (derbyniodd ac yna gwrthododd gynnig o swydd yn Llundain ym Mehefin), ni fedrai wrthod y sialens o geisio curo'r *Faner*, hwyrach oherwydd ei fod, erbyn hyn, yn casáu 'y cawraidd Hiraethog' â chas perffaith.

Meddai wrth Thomas Levi, '. . . y mae ar fy meddwl i dynu fy mreichiau o'm llewys, a ffusto Gee a Hiraethog "yn llarpau yn y cae" am y baweidd-dra a'r sarhad a gynigiasant eu taflu arnaf' ac felly dechreuodd ysgrifennu'n helaeth i'r *Amserau* unwaith eto.

Canol Awst hysbysodd Levi, 'Yr ydwyf . .()t.()yn ysgrifenu llawer iawn i'r *Amserau*; pob peth a welwch ynddo ar ffurf erthygl, gallwch ei osod i lawr i mi'. At hyn, wedi ymadawiad Eleazar Roberts, bu'n rhaid iddo baratoi'r newyddion tramor, tra bod Mathew Lewis yn trin y newyddion cartref, y gohebiaethau a'r hysbysebion.

Yn ffodus, nid oedd dim prinder o newyddion cyffrous erbyn hyn: wrth i sgandal prawf Madeleine Smith ddechrau tawelu daeth adroddiadau am y gwrthryfel yn India i lenwi colofnau'r newyddiadur a gallai'r Cymry ddarllen faint a fynnent am Nana Sahib, cyflafan Cawnpore, gwarchae Lucknow a chwymp Delhi.

* * *

OND HWYRACH mai'r prif atyniad o ddechrau Gorffennaf ymlaen oedd nofel gyfres Mathew Lewis, *Hanes Rhydderch Prydderch*, a ddarparai ddisgrifiad hynod o fanwl o'r myrdd o demtasiynau a hudai Gymro ifanc nwydus yn Lerpwl.

Wrth gynnwys ffuglen fel hyn 'roedd yr *Amserau* yn dilyn esiampl yr *Herald Cymraeg* a gynhwysai ran o nofel gyfres ym mhob rhifyn o ddechrau Chwefror 1856 ymlaen. Nid oes sôn am nofel Lewis mewn unrhyw astudiaeth o ddatblygiad y nofel Gymraeg er ei bod yn haeddu llawn cymaint os nad mwy o sylw na'r nofelau dirwestol eraill a gyhoeddwyd ganol y 1850au.

Ni ellir dyfynnu o *Rhydderch Prydderch* yma, ond rhydd teitlau rhai o'r penodau syniad o gynnwys y nofel ac o allu Mathew Lewis i oglais dychymyg ei ddarllenwyr: felly cawn 'Tro trwy y dref ar nos Sadwrn', 'Ceisio dedwyddwch mewn lleoedd anghyfreithlon', 'Myned yn waeth er pob peth', 'Y dychryniadau', ac ati!

Pan fu'n rhaid gohirio un rhan am wythnos gwnaeth Mathew Lewis ei orau i ddal ei afael yn nheimladau ei ddarllenwyr trwy gynnwys nodyn i'w sicrhau bod Rhydderch yn ystod yr wythnos honno 'yn myned rhagddo yn ofnadwy yn ei yrfa bechadurus'! (I'w gwblhau)